**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Hannah Blythyn AS
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

7 Chwefror 2024

Annwyl Hannah,

Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024

Yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 (y Gorchymyn).

Byddwch yn ymwybodol bod ein hadroddiad ar y Gorchymyn yn cynnwys chwe phwynt technegol a dau bwynt o ran rhinweddau. Yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror 2024, gwnaethom drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar y Gorchymyn.

Fel y gwyddoch, roedd ein trydydd pwynt adrodd technegol yn tynnu sylw at wahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg ar gyfer rheol newydd 5C(7) (sydd i'w gweld ym mharagraff 6(3) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn), sy'n golygu bod ystyr wahanol i'r ddau destun a'u bod yn gwrthddweud ei gilydd. Dyma'r ymateb a gawsom i'r pwynt hwn:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod testun darpariaethau Cymraeg a Saesneg rheol newydd 5C(7) (a fewnosodir gan baragraff 6(3) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn) yn creu ystyron sy'n groes i'w gilydd. Mae'r testun Saesneg a nodir yn gywir, a dylai'r testun Cymraeg cyfatebol ddarllen "Pan **nad oes** gan yr awdurdod gofnodion o dâl y person hwnnw am y cyfnod hwnnw..." (pwyslais wedi ei ychwanegu). Bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio fel sy'n briodol pan fo'r cyfle nesaf yn codi."*

Efallai y byddwch yn gwerthfawrogi ein pryder fel Pwyllgor ei bod yn ymddangos, ar sail yr ymateb a gawsom, nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn yn fater brys. Nid oes awgrym yn yr ymateb ychwaith o ran pryd y caiff y testun Cymraeg ei gywiro. Yn y cyfamser, mae'r gyfraith yn y maes hwn yn ddiffygiol, sy'n anfoddhaol.

Byddem yn croesawu cael cadarnhad ynghylch pryd y caiff y gwall yn rheol newydd 5C(7) ei gywiro.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd Iau 22 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament